Cylchlythyr Cymunedol Dolwyddelan

Haf 2025

GERDDI AGORED DOLWYDDELAN

Digwyddiad codi arian elusennol St Gwyddelan's

Dydd Sadwrn 7 Gorffenaf 11.00 – 3.00



Tocynnau a mapiau ar gael o Eglwys Sant Gwyddelan 11.00 – 14.00

£5.00 fesul oedolyn (plant am ddim)

www.facebook.com/stgwyddelan

Ardal Weinidogaeth
Bro Gwydyr
Ministry Area

MENTER SIABOD

I gysylltu â'r Pafiliwn – 01690 750 490 (peiriant ateb)
Os ar frys cysylltwch ag un o'r canlynol -
Paul Donnelly 07534 120 193 Bob Valintine 01690 750 205
Eunice Cawley 01690 750 268
mentersiabod@googlemail.com
Pafiliwn Cymunedol Dolwyddelan, Tu ôl i'r Ysgol
Dolwyddelan, Conwy LL25 0SZ

Taliadau Llogi'r Pafiliwn ac Ystafell Gwyddelan

Sefydliad	Bore (hyd at 4 awr)	Prynhawn (hyd at 4 awr)	Gyda'r nos (hyd at 4 awr)	Diwrnod Llawn
Cyfarfodydd cyson (wythnosol/misol) Lleol/Elusennol/Gwirfoddol Sefydliadau	£10	£10	£10	£25
Un-tro neu achlysurol Lleol/Elusennol/Gwirfoddol Sefydliadau	£15	£15	£15	£35
Busnes	£25	£25	£25	£60
Mae'r defnydd o gyfarpar Clywedol/Gweledol yn gost ychwanegol o £5 y sesiwn				
Bydd sefydliadau Lleol/Elusennol/Gwirfoddol (digwyddiadau rheolaidd) gyda llai na 10 yn bresennol yn talu £1 y pen y sesiwn hyd at 4 awr.				

Ar gael i'w llogi fesul diwrnod gan Fenter Siabod yn y Pafiliwn



Cadair Olwyn - rhodd

Pebyll - £50 y dydd (ynghyd â blaendal o £50)

Byrddau Plyg – am ddim i drigolion lleol

Teclyn siampŵio Carpedi - £10 y dydd

Glanhawr Mannau Penodol (yn ddefnyddiol ar gyfer y grisiau) £5 dydd

Unrhyw ymholiadau cysylltwch a . . .


Bob Valintine 01690 750 205 Paul Donnelly 07534 120 193

Kirsty Jones 07703 834 322


Sinema'r Pentref

Ystafell Gwyddelan– 7.00yp Atyniadau sydd ar y gweill

Mehefin 18



Gorffennaf 16



Awst 20



CLWB IEUENCTID



Mae'r tymor hwn wedi bod yn dymor gwych i'r clwb, gyda llawer yn digwydd a'r clwb yn mynd o nerth i nerth. Mae'r niferoedd yn cynyddu bob wythnos.

Y tymor hwn bu i'r clwb gystadlu mewn cystadleuaeth gelf, oedd yn agored i Gonwy gyfan, a'r pwnc oedd cydraddoldeb ac amrywiaeth. Bu i'n grŵp gydweithio ar greu'r darn gwych yma o gelf, sy'n dangos ac yn mynegi gwybodaeth pobl ifanc ar y pwnc.

Felly, drwy sir Conwy gyfan, daeth ein grŵp yn 3ydd – cyflawniad enfawr! Ond hefyd, i mi fel gweithiwr arweiniol, mae'n fy ngwneud yn falch iawn o weld y bobl ifanc yn datblygu bob wythnos ac yn gwneud gwaith mor wych.

Matt Mullender

DIGWYDDIAD CODI ARIAN AR GYFER 'DOLI YN EI BLODAU'



Diolch yn fawr i bawb wnaeth ddod i'n cefnogi ar y 3ydd o Fai, ac am y rhoddion o wobrau raffl gwych, cacennau, hen drugareddau, lluniaeth ac ati, hefyd am eich amser a'ch ymdrech os oeddech chi'n cymryd rhan. Rhoddodd dri ffrind i 'Dolwyddelan yn ei Blodau' roddion hael gan nad oeddent yn gallu bod yno ar y diwrnod, diolch yn fawr.
Fe wnaethom ni godi dros £600 sy'n wych, byddwn ni'n defnyddio'r arian ar gyfer planhigion, compost ac ailosod dalwyr planhigion ayb o fewn y pentref, er mwyn cadw Dolwyddelan yn hardd. Angie Burke

MYNEDIAD AM DDIM

FREE ENTRY

Ffair Haf

Summer Fair

STONDINAU AMRYWIOL / VARIOUS STALLS
SÊL CIST CAR / CAR BOOT SALE
FAN HUFEN IÂ / ICE CREAM VAN
PLANHIGION / PLANTS
RAFFL / RAFFLE
FAN FWYD / FOOD VAN
GEMAU HWYLIOG / FUN GAMES

3YH-5YH
3PM-5PM

3/7/25

BLE?WHERE?

YSGOL DOLWYDDELAN SCHOOL

ELW TUAG AT YSGOL DOLWYDDELAN

PROCEEDS GO TO DOLWYDDELAN SCHOOL



MAE EICH PAFILIWN EICH ANGEN CHI



Ydych chi'n defnyddio'r pafiliwn?
Oes unrhyw un yn eich teulu yn defnyddio'r Pafiliwn ar gyfer un o'u grwpiau cymdeithasol?
Ydych chi wedi mwynhau Gŵyl Gwanwyn yn y Pafiliwn?

Yn ystod y flwyddyn, caiff y Pafiliwn ei ddefnyddio'n rheolaidd gan lawer o grwpiau – Clwb Ieuenctid – Clwb Dydd Llun – Clwb Crefftau – Clwb Cinio Dydd Gwener – Sefydliad y Merched a llawer mwy, yn ogystal â gwersi Cymraeg wythnosol gan Brifysgol Bangor. Caiff hefyd ei ddefnyddio'n aml gan Gyngor Conwy, Trafnidiaeth Cymru a Chyngor Cymuned Dolwyddelan ayb ar gyfer Digwyddiadau er Gwybodaeth i'r Cyhoedd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Pafiliwn hefyd wedi'i logi ar gyfer tua 10 dathliad preifat – partïon plant, pen-blwyddi, pen-blwyddi priodas, ymddeoliadau ayb (caiff cyfleusterau coginio a llestri eu darparu).

Hefyd, ers COVID, rydym wedi trefnu Gŵyl Gwanwyn bob yn ail flwyddyn gyda chrefftau a stondinau yn llawn pethau da, adloniant i blant, cestyll neidio a hwyl i'r teulu cyfan.

Pam ein bod ni'n rhannu hyn gyda chi?
Oherwydd rydym ni'n chwilio am wirfoddolwyr i ymuno â'n tîm.

Tydw i ddim yn meddwl y bydd unrhyw un sy'n rhan o'r gwaith o edrych ar ôl y Pafiliwn yn malio fy mod i'n rhannu ein bod ni, fel grŵp, yn heneiddio! Ac mae'r dasg o drefnu digwyddiadau a gwneud yn siŵr bod y Pafiliwn yn dal i fynd yn mynd yn anoddach bob blwyddyn. Rydym ni'n parhau i fynd gyda'r gwaith gan ein bod ni'n gwybod faint mae'r cyfleuster yn ei olygu i gymaint o bobl.

Ydych chi'n newydd i'r pentref? Wedi ymddeol yn ddiweddar? Eisiau cymryd mwy o ran yn nigwyddiadau'r pentref? Gyda sgiliau rydych chi'n teimlo byddai'n ddefnyddiol i'r tîm? Neu a oes gennych chi syniadau am brosiectau neu ddigwyddiadau newydd i'r pentref? Os felly, cysylltwch gyda ni.

MAE EICH PAFILIWN EICH ANGEN CHI!

Rydym ni'n grŵp cyfeillgar o bobl sy'n meddwl am y gymuned, sy'n chwilio am aelodau newydd a brwdfrydig. Rydym ni'n cynnal 6 cyfarfod y flwyddyn (mwy pan fydd angen) sy'n para tua 2 awr er mwyn rhannu syniadau, awgrymu gwelliannau a chadw'r Pafiliwn ac Ystafell Gwyddelan (ystafell TG) ar fynd yn gyffredinol.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar y 26ain o Fehefin am 7:30yh yn y Pafiliwn, mae croeso mawr ichi ymuno â ni, neu gallwch chi ofyn i unrhyw un o'r aelodau rydych chi'n eu hadnabod am fwy o wybodaeth.

ADRODDIAD GAN Y CYNGOR CYMUNED

CYNLLUN LLIFOGYDD – Wrth ddatblygu cynllun Llifogydd Aml-Asiantaeth Dyffryn Conwy, caiff cymunedau sy'n adnabyddus am gael eu boddi, fel Dolwyddelan, eu hannog i ymateb drwy gynhyrchu cynllun llifogydd lleol. Mae Cyngor Cymuned Dolwyddelan a Chynghorydd Liz Roberts, sy'n aelod o'r bartneriaeth aml-asiantaeth, yn ymgysylltu gyda Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cynhyrchu'r cynllun lleol hwn. Y gobaith ydy, i wirfoddolwyr weithio ochr yn ochr â Chyngor Cymuned Dolwyddelan i sicrhau bod ein trigolion yn y pentref yn derbyn rhybudd o flaen llawn gan CNC am lifogydd posibl yn yr ardal.

Mae'r cais ar gyfer 2 wirfoddolwr ond byddai hyd at 5 person yn ddelfrydol. Mae Cynghorydd Liz Roberts a Chlerc Cyngor Cymuned Dolwyddelan yn fodlon cefnogi'r gwirfoddolwyr i gydlynu cynllun o'r fath ar gyfer Dolwyddelan gyda chefnogaeth Dŵr Cymru a CNC hefyd.

Mae meinciau picnic newydd wedi'u gosod yn ardal goetir yr orsaf ac un arall wrth y siglenni.

CYNLLUN CYMUNEDOL – Cafodd 2 ddigwyddiad llwyddiannus eu cynnal yn y Pafiliwn gyda thrigolion yn mynegi eu barn. Mae Cyngor Cymuned Dolwyddelan bellach yn aros am y Cynllun wedi'i gwblhau gan yr ymgynghorydd fel bod modd ei rannu gyda'r gymuned. Simon Shuttler



LLYFRAU - LLYFRAU - LLYFRAU !

Ydych chi'n hoffi darllen?
Ydych chi'n mynd trwy lyfrau yn gyflym iawn?

Wel, mae cannoedd o nofelau ail-law, cyfeirlyfrau, llyfrau hunangymorth, coginio, garddio, hobi a llyfrau plant ar gael yn stondin lyfrau'r Pafiliwn (llawer ohonynt erioed wedi'u darllen!)

Caiff llyfrau 'newydd' eu hychwanegu bob wythnos,
rhai Cymraeg a Saesneg.

Bydd mynediad i archwilio pan fydd goleuadau'r Pafiliwn ymlaen.
Blwch gonestrwydd i dderbyn taliadau.



Rydym hefyd yn croesawu rhoddion o lyfrau yn fawr.
Bydd yr arian gaiff ei godi yn mynd yn ôl i'r gymuned.



TRYCHINEB AGOS YN Y PAFILIWN!



Yn ôl ym mis Mawrth, cafodd Menter Siabod y dasg annymunol o orfod cau'r Pafiliwn i'r holl ymwelwyr a grwpiau mwyaf sydyn, pan ddaeth yn amlwg bod y draeniau yng nghefn yr adeilad wedi dymchwel. Doedd gennym ni ddim syniad pa mor hir y byddai'n rhaid cau'r Pafiliwn, roedd y cwmnïau draenio yn rhoi amserlenni siomedig ar gyfer cwblhau'r gwaith (ac roedden nhw eisiau cloddio hanner Dolwyddelan!)

Yna fe wnaethom ni apelio at Superbuilders™ lleol, Cameron ac Urien Roberts, wnaeth ymateb ar unwaith ac yn wych, gan ddod i edrych ar y broblem ac yna'n gyflym i ddatrys y broblem. Fe wnaethon nhw weithio mor wych nes inni allu ail-agor y Pafiliwn i'w ddefnyddio o fewn yr wythnos!!



Rydym yn hynod o ddiolchgar i Urien, Cameron a'r tîm am eu holl waith a'u harbenigedd, eu dealltwriaeth o'r hyn y mae'r Pafiliwn yn ei olygu i'r pentref a faint o bobl gafodd eu heffeithio o'i gau.

Arwerthiant Dillad Ail-law er budd Parkinson's UK

Dydd Iau 19eg o Fehefin 7:00 tan 9:00yh

Yn y Pafiliwn

Mynediad a thocyn raffl £4 – rhifau buddugol, potel o win neu siocled
Yn cynnwys gwydraid o win a thameidiau ysgafn (te a choffi ar gael)

Dewch am sgwrs a gwydraid. Dewch a'ch hen eitemau – dillad, bagiau, hetiau ayb mewn cyflwr da, gan nodi eu maint a'r pris hoffech chi ei dderbyn.



Hanner ohono yn eich poced chi a hanner ohono i Parkinson's UK

Trio cyn prynu. Cyfleusterau newid. Drych hir.

Cysylltwch gyda Jackie Chamberlain - chamberlain535@btinternet.com neu Angie Burke – burkeangela28@gmail.com am fwy o wybodaeth













Adroddiad Cynnydd ar Adnewyddu
Plas Penaeldroch - Mai 2025

Bu inni brynu Neuadd y Plas (Plas Penaeldroch erbyn hyn) ym mis Rhagfyr 2015 gyda'r bwriad o'i adnewyddu yn llwyr ymhen 10-15 mlynedd. Rydym bellach 9 mlynedd i mewn i'r prosiect gyda llawer i'w wneud o hyd!

Mae tair 'ardal' ym Mhlas Penaeldroch ar hyn o bryd. Y tŵr o'r 1970au, sydd wedi'i adfer yn llwyr ac yn gartref i dair ystafell wely gwesty, sydd ar agor i westeion. Y maenordy Fictoraidd, gaiff ei adnewyddu ymhen ychydig flynyddoedd, a'r prosiect presennol.

Pan ddaethom i feddiant Plas, roedd estyniad to fflat un llawr gyda phedair ystafell wely ddwbl (i'r dde wrth ichi edrych o'r maes parcio) ynghlwm trwy gyfres o adeiladau ar oleddf ac yn edrych ychydig fel byngalo oedd wedi gweld dyddiau gwell. Rydym yn trawsnewid hwn, gan roi to ar ongl iddo i'w wneud yn gliriach yn weledol bod y ddau adeilad yn perthyn i'w gilydd, gyda llety hawdd ei gyrraedd ar y llawr gwaelod (sy'n addas i bobl mewn cadair olwyn, a rheiny gyda phroblemau golwg neu glyw) gydag ystafelloedd gwely eraill ar y llawr cyntaf. Rydym hefyd yn creu ardal dderbynfa - ond mae hyn i gyd yn cymryd llawer mwy o amser na'r hyn yr oeddem wedi'i ddisgwyl yn gyntaf. Rydym yn gobeithio gosod llechi ar y to o fewn y mis nesaf.

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb yn y manylion pellach, mae croeso ichi alw heibio, a bydd Mike a Carrie yn hapus i rannu'r wybodaeth gyda chi!

Rydym yn gobeithio y bydd y ddwy ystafell wely hawdd eu cyrraedd yma yn barod ar gyfer gwesteion yn 2027 ac, unwaith y bydd y gwaith adeiladu yma wedi'i gwblhau a bod cwrt blaen yr adeilad wedi'i glirio o'r gwaith adeiladu, rydym yn gobeithio gallu ail-agor y caffi a dal i fyny gyda'r holl 'newyddion' lleol rydym wedi'u colli yn y cyfamser!

Yma, bydd dim ond angen aros inni orffen y storfa y mae modd ei chloi, amnewid yr hen hafoty, fel bod pobl yn gallu gadael eu beiciau yn rhywle diogel, ac yna atgyweirio'r to sy'n gollwng yn y Plas, cyn mynd ati i adnewyddu'r llawr cyntaf, er mwyn gwneud sawl ystafell i'w gosod ac ystafell i'r perchennog yn yr atig. Byddwn ni yna'n diweddaru'r ystafelloedd derbyn yn y Plas fel bod ein gwesteion yn gallu mwynhau pob rhan o'r Plas, gan gynnwys yr ystafell gemau (sydd i ddod yn fuan).

Rydw i a Mike wedi ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwaith hyd yma, gyda chymorth o bryd i'w gilydd gan ein cyfaill lleol, Niall.

Dilynwch ein cynnydd ar ein blog ar www.penaeldroch.co.uk/blog/


Newyddion am Gapel Hanesyddol Bethel Dolwyddelan

Y weledigaeth:

- Darparu canolfan treftadaeth hanesyddol.
- Oriel ac adran i grefftwyr lleol.
- Canolfan groeso.
- Beirdd ac artistiaid preswyl.
- Tai.
- Siop atgyweirio.
- Canolfan lles gan gynnwys ffisiotherapi.
- Rhandiroedd a gweithgareddau awyr agored.
- Maes parcio gyda mannau gwefru CT (EV)

Er nad yw'n ymddangos bod unrhyw beth yn digwydd o ran Capel Bethel, yn y cefndir mae Grŵp Gweithredu Bethel (BAG) wedi bod yn brysur gyda'r canlynol:

- Yn dilyn ymatebion cadarnhaol Cynllunwyr Tref Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Menter Siabod, mae llythyrau yn gofyn am gymorth wedi'u dosbarthu i fusnesau o fewn y gymuned. Mae'r rhain yn gofyn iddynt gwblhau holiadur byr i ddangos eu cefnogaeth i gaffael Capel Bethel ac wedi hynny potensial Bethel fel canolfan gymunedol sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae'r holiaduron sydd wedi dod i law hyd yma i gyd wedi bod yn gefnogol gyda rhai syniadau adeiladol ychwanegol.
- Mae gan Grŵp Gweithredu Bethel wefan fyw erbyn hyn, sy'n darparu lluniau, brasluniau, newyddion, diweddariadau, manylion cyswllt a gwybodaeth am sut i gefnogi'r Grŵp: https://bethel-action-group.jimdosite.com
- Gwirfoddoli i fordio ffenestri sydd wedi torri gan ei bod yn amlwg bod fandaliaeth a'r tywydd yn cael y gorau o Fethel, fel y gwelsom ychydig fisoedd yn ôl pan fu i un o lechi'r to ddisgyn ychydig lathenni i ffwrdd o gerddwr. Gan ei fod mewn lleoliad mor amlwg, mae diogelwch y cyhoedd yn cael ei gwestiynu.
- Bu i gynrychiolydd o Ymddiriedolaeth Adeiladau Crefyddol Cymru ymweld â'r pentref yn benodol er mwyn gweld Bethel. Rydym yn aros am y canlyniad ar hyn o bryd.
- Mae llyfryn BAG ar ffurf drafft. Rydym yn gobeithio y bydd ar gael yn fuan.



Mae pryderon am y gofod cymunedol presennol sydd ar gael i'w logi yn Nolwyddelan. Mae cyfyngiadau cynyddol ar ddefnyddio cyfleuster yr Ysgol (Ganolfan), gyda materion Diogelu ac Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus bellach yn angenrheidiol ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd ac mae costau llogi wedi cynyddu yn gyffredinol.

Os ydych chi'n rhannu ein gweledigaeth, ymunwch â ni. Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr a rhoddion. Efallai yr hoffech chi ymuno â ni yn y cyfarfod grŵp nesaf? Cysylltwch gyda ni:

Ysgrifennydd BAG: Helena Wroblewska, 07828 761114, Helena_w@btinternet.com
Cadeirydd BAG: Richard Griffin, 07736 059925, richard_griffin@btinternet.com
Trysorydd BAG: Jon Reynolds, 07722 040778, jon1reynolds@outlook.com

Helena Wroblewska

Griffiths Snooker 147

Hyfforddwr Snwcer i Oedolion a Phlant

Lefelau i ddechreuwyr, canolradd a safon uwch ar gael.

Gallu teithio ledled gogledd Cymru

Ffon: 07702641437

iwanwynne@aol.com

SANT GWYDDELAN



Mae Sant Gwyddelan yn rhan o ardal Weinidogaeth Bro Gwydyr yn esgobaeth Bangor (Yr Eglwys yng Nghymru). Mae Bro Gwydyr yn grŵp o bum cymuned Eglwysig yn yr ardal, yng ngofal ein gweinidog, y Parchedig Stuart Elliot. Rydym yn cynnal gwasanaethau dwyieithog ddwywaith y mis, fel arfer ar y dydd Sul cyntaf a'r trydydd o bob mis, am 9:30yb, gyda the a choffi yn dilyn y gwasanaeth. Mae croeso i bawb i'r holl wasanaethau a'r amrywiaeth eang o ddigwyddiadau eraill gaiff eu cynnal yn ardal y weinidogaeth a'r cyffiniau. Mae modd trefnu gwasanaethau arbennig, gan gynnwys priodasau, angladdau a bedyddiadau gyda Stuart. Mae manylion llawn o'r hyn sy'n digwydd ar raglenni papur sydd wedi'u gadael yn yr Eglwys, ar y cylchlythyr misol, neu ar galendr ardal y weinidogaeth ar-lein drwy'r tudalennau gwe https://brogwydyr.cymru/ lle mae mwy o wybodaeth am yr hyn sydd ymlaen.

Rydym wedi bod yn ffodus iawn o gyfleoedd i ganu gwasanaethau hwyrol weddi yn Eglwys Sant Gwyddelan ers ychydig flynyddoedd. Byddwn yn dathlu gyda'r hyn a allai fod ein hwyrol weddi olaf ar ddydd Sul y 15fed o Fehefin am 6yh. Mae hwn yn wasanaeth hyfryd ac yn ffordd wych o orffen penwythnos, dewch draw i helpu i wneud y diwrnod hwn yn hynod o arbennig.

Manylion cyswllt -

Ficer@brogwydyr.cymru Tel :01690 710313

www.brogwydyr.cymru/

Facebook: Bro Gwydyr / St Gwyddelan's Church

Rhif Cofrestru Elusen: 1181120

Ardal Weinidogaeth Bro Gwydyr Ministry Area

Sue Layland

Awst 3 1906 – North Wales Weekly News

Yn Nyffryn Conwy, bu hi'n bwrw glaw yn ddi-baid am tua 10 awr, gyda'r canlyniad bod afon Conwy erbyn hanner dydd ddoe wedi boddi'r dolydd cyfagos. Roedd cannoedd o aceri wedi'u gorchuddio ac yng nghyffiniau Dolyddelen roedd hi'n olygfa druenus. Roedd caeau mawr o wair wedi'u boddi'n llwyr, ac yn oriau mân y bore roedd ffermwyr i'w gweld yn cerdded trwy'r dŵr oedd at eu pen-gliniau yn y gobaith o achub y gwair oedd yn dal allan. Roedd cnydau eraill, yn ogystal ag eiddo, wedi'u difrodi'n sylweddol a llawer o ddefaid wedi marw.

SEFYDLIAD Y MERCHED DOLWYDDELAN

IONAWR – Fe wnaethom ni agor y flwyddyn gyda'n cyflwyniad penderfyniad cenedlaethol, gaiff ei redeg gan Alison Richmond. Ein pleidlais oedd i gefnogi ymgyrch CPR 'Bystanders can be Lifesavers'

CHWEFROR - Cyflwyniad gafaelgar am waith hanfodol, sy'n achub bywydau, gwirfoddolwyr Coastwatch, gan Wendy Dossett. Gwnaed rhodd tuag at gynnal y gwasanaeth gwirfoddol lleol hwn. Aethom ni hefyd ar ymweliad i Lanberis lle bu inni gyfarfod â Sefydliad y Merched Brynrefail i ddysgu a chwarae Boccia (chwaraeon pêl sy'n gysylltiedig â bowlio) ... ac erbyn diwedd y noson ni oedd yr enillwyr!

EBRILL – Fe wnaethom ymweld â phencadlys sefydliad Achub Mynydd Dyffryn Ogwen a darganfod beth sy'n digwydd mewn galwad brys – o'r cyswllt cyntaf, i lanhau a thacluso'r holl offer ar ddiwedd yr alwad (hyd yn oed os ydy hi'n 2yb ar noson oer!) cyfraniad eithriadol i achub bywydau ar ein bryniau – anfonwyd rhodd i gefnogi'r gwasanaeth gwirfoddol hanfodol hwn.

MAI – Fe wnaethom groesawu siaradwr o wasanaeth cam-drin yn y cartref Aberconwy ac rydym wedi penderfynu darparu bocsys o bethau ymolchi fel anrhegion Nadolig eleni i'r dioddefwyr maen nhw'n eu cefnogi.

MEHEFIN - Rydym ni'n cynnal grwpiau Sefydliad y Merched lleol eraill i ymuno â ni, ar y trên, am daith gerdded ar noson braf o haf, te hufen a gwylio fideos o hanes Dolwyddelan, cyn dal y trên yn ôl i fyny'n llinell leol hyfryd.

Rydym ni'n cyfarfod ar ddydd Gwener cyntaf y mis am 7.00yh.

Cysylltwch gyda Alison Richmond ar 07534 284188 os hoffech chi ymuno â ni.

CLWB DYDD LLUN DOLWYDDELAN

Caiff Clwb Dydd Llun y pentref ei gynnal yn y Pafiliwn am 2 o'r gloch ar y pedwerydd dydd Llun o bob mis.

Mae ein cyfarfodydd yn anffurfiol, lle gallwn ni fwynhau sgwrs ddifyr gan siaradwr gwadd neu wneud cwis – neu yn syml mwynhau cwmni ein gilydd, cael sgwrs dda a chwerthin dros baned o de a bisgedi.

Mae croeso i aelodau newydd! John.

ILD
PEIRIANNEG ENGINEERING

Domesdig ~ Ffermio ~ Busnes

Domestic ~ Farming ~ Business

Cattlegrids – Gates – Railings
Birdfeeders – Garden metalwork
Agricultural machinery repairs
etc.

Gwefan: ildcattlegrids.co.uk

Ebost: ildcattlegrids@gmail.com
ildaviesengineering@gmail.com

Ffon: 07760295557

Bodhi
MOVEMENT

Bodywork & Movement Studio

The Studio, Royal Oak Stables,
Betws y Coed

Injury Assessment
Sports Massage
Movement Analysis
Yoga Classes

01690 359081
www.bodhi-movement.co.uk

Carrie & Mike look forward
to welcoming you

Plas Penaeldroch

ACCOMMODATION
Pont-y-pant

For information find us
on Facebook
Plas Penaeldroch Manor

Pont-y-Pant, Dolwyddelan
LL25 OPJ Tel. 01690 750 316
www.penaeldroch.co.uk

MEITHRINFA'R FELIN NURSERY

Dolwyddelan
01690 750 319
07880 838 556



Basgedi Crôg **Hanging Baskets**
Planhigion i'r Ardd **Bedding plants**
Planhigion Llysiau **Vegetable Plants**
Planhigion Ty **House Plants**
Compost

AJ PHYSIO
Alison Liederbach
Chartered Physiotherapist

AJP

The Old Surgery
Church Street
Dolwyddelan LL25 0SJ

Appointments 07780 165844
Email: aliphys@icloud.com
Facebook: AJPhysioDolwyddelan

Baabarella
Crafts & Gifts

SALES@BAABARELLA.CO.UK
FACEBOOK: BAABARELLA
WWW.BAABARELLA.CO.UK



Bespoke, handcrafted gifts & items using wool from the sheep on our family farm in beautiful Dolwyddelan, Snowdonia.



Snowdonia Massage Therapies

Alison Richmond MGHT
Mobile Therapist

Neal's Yard Remedies
Independent Consultant
Massage Treatments and
Hot Stone Therapy

Call: **01690 750 222**
Mob: **07534 284 188**

Visit my Neal's Yard shop:
www.uk.nyrorganic.com/shop/alison richmond
Facebook: alisonrichmondnealsyard
10% discount off all Massage Treatments with this advert. Please quote - Menter Siabod when booking, discount cannot be used in conjunction with any other offer.

GARY 'LOGS' EDWARDS

LOGS and KINDLING

Small or large loads

07718 505 093

